



Eich cyf/Your ref: MA-P/JJ/1834/19

John Griffiths AM / AC  
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

23 Mai 2019

Annwyl John

**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau dan y teitl Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol - Ebrill 2019**

Diolch i'r Pwyllgor am eu gwaith yn y maes pwysig hwn o Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol. Lluniwyd adroddiad defnyddiol ac argymhellion wedi i'r Pwyllgor ystyried y dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a gyflwynwyd ger eu bron.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i wella amrywiaeth ymhlith aelodau sydd wedi'u hethol a galluogi unigolion sy'n dymuno sefyll mewn etholiadau yn eu cymunedau i wneud hynny.

Mae eich adroddiad yn canolbwyntio ar nifer o faterion pwysig, gan gynnwys presenoldeb o bell, trefniadau rhannu swydd a chymorth i alluogi unigolion anabl i sefyll mewn etholiad. Dyma'r meysydd lle mae gwaith eisoes ar y gweill, ond mae camau pellach y gellir eu cymryd i wella cyfleoedd i unigolion.

Yn ogystal â'r meysydd y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad, dylem gydnabod bod mesurau eisoes ar waith i gefnogi amrywiaeth. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i wneud darpariaethau deddfwriaethol ar gyfer absenoldeb teuluol i aelodau etholedig er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau i gyfranogi mewn llywodraeth leol ar gyfer cynghorwyr sydd â chyfrifoldebau teuluol. Rydym yn bwriadu diweddarau'r trefniadau hyn yn y Bil Lywodraeth Leol ac Etholiadau.

Bydd y gwerthusiad o'n Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn llywio cam nesaf y prosiect hwn, a gallaf ddweud mwy am hyn yn hwyrach eleni. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, bydd yn bwysig ein bod yn glir ynghylch sut y gallwn gyfuno ymchwil o ystod o brosiectau / adroddiadau - gan gynnwys eich adroddiad diweddar - i ganfod meysydd ar gyfer gweithredu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym eisiau nodi'n glir pa faterion sy'n gyffredin i unigolion sy'n gweithredu ar wahanol lefelau mewn llywodraeth leol, h.y. cyngorau tref, cyngorau cymuned a phrif gynghorau, a pha broblemau sy'n benodol i'r naill lefel neu'r llall.

Rydym hefyd eisiau nodi'n glir pa gamau y gellir eu cymryd i helpu unigolion ar draws y sbectrwm ehangach o nodweddion gwarchoddedig.

Rydym eisiau gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid i sicrhau dull cydweithredol sy'n cyflawni cynnydd pellach yn y maes hwn.

Yn gywir



**Julie James AC/AM**

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government

## **Mae ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad wedi'u nodi isod:**

### **Argymhelliad 1**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru, yn ei bil llywodraeth leol arfaethedig, yn cynnwys darpariaethau i lacio'r cyfyngiadau ar bresenoldeb a phleidlais o bell i aelodau yng nghyfarfodydd ffurfiol y cyngor a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 er mwyn galluogi awdurdodau lleol i dreialu'r defnydd o ddulliau cyfathrebu fideo.

### **Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i roi gwell rhyddid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i gefnogi unigolion nad ydynt, oherwydd amryw o amgylchiadau, yn gallu cyfrannu yn llawn at drafodaethau a phrosesau gwneud penderfyniadau yng nghyfarfodydd ffurfiol y cyngor.

Rydym wedi nodi yn flaenorol y bydd darpariaethau yn cael eu cyflwyno yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) i ddiwygio adrannau yn ymwneud â mynediad o bell ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, i slyleiddio eu defnydd.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 2**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i nodi tair ardal awdurdod lleol i dreialu'r defnydd o ddulliau cyfathrebu fideo i hwyluso cyfranogiad drwy gymryd rhan yng nghyfarfodydd y cyngor o bell.

### **Ymateb: Derbyn**

Mae newid yn aml yn broses ailadroddus, ac mae'n bwysig bod gwersi yn cael eu dysgu ynghylch yr hyn sy'n gweithio yn dda, yr hyn sydd ddim yn gweithio gystal, a sut y gellir goresgyn heriau. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfle i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol i ganfod nifer o ardaloedd ar gyfer treialu dulliau newydd. Pan fydd yr arloeswyr hyn wedi'u dewis, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid i ganfod a oes unrhyw gamau pellach y gall Llywodraeth Leol eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhwystrau i gynnydd.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 3**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo ehangu'r cyfleoedd rhannu swyddi rhwng dau unigolyn ar gyfer aelodau gweithredol awdurdodau lleol, yn unol â'r hyn a gyflawnwyd yn llwyddiannus yng Nghyngor Abertawe.

### **Ymateb: Derbyn**

### **Argymhelliad 4**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ddichonoldeb rhannu swyddi rhwng dau unigolyn ar gyfer aelodau anweithredol awdurdodau lleol a chynnwys darpariaethau i alluogi hyn yn y bil llywodraeth leol arfaethedig.

## **Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

### **Ymateb i Argymhellion 3 a 4**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y manteision amlwg i drefniadau rhannu swydd o ran hwyluso gwell cyfleoedd i unigolion i wella amrywiaeth mewn democratiaeth. Yr hyn sy'n allweddol i lwyddiant yn y maes hwn yw bod yn glir ynghylch sut y bydd y trefniadau yn gweithio i wneud y gorau o fanteision y dull hwn ar gyfer yr awdurdod lleol a'r unigolion sy'n rhannu swydd.

Mae dwy broblem benodol, a'r cyntaf o'r rhain yw trefniadau rhannu swydd i aelodau ar ôl eu hethol. Bydd rhoi cyfle i aelodau gweithredol rannu swydd yn galluogi gwell amrywiaeth mewn swyddi arweinyddiaeth mewn awdurdodau lleol ac felly bydd y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn cynnwys darpariaethau i hwyluso trefniadau rhannu swydd i swyddogion gweithredol ac arweinwyr cynghorau. Byddwn hefyd yn ystyried pa drefniadau y gellir eu rhoi ar waith i hwyluso rhannu swyddi mewn swyddogaethau anweithredol, fel cadeiryddion pwyllgorau.

O ran y mater arall o drefniadau rhannu swyddi ar gyfer aelodau anweithredol sy'n cael eu hethol, nid yw hwn yn fater yr ydym wedi ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn ag ef, ac mae goblygiadau pellgyrhaeddol o ran sut y bydd etholwyr yn cael eu cynrychioli a'u perthynas â'r cynrychiolwyr hynny. Does dim digon o amser i archwilio ac ymchwilio i hyn cyn cyflwyno'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn hwyrach eleni. Ond, byddwn yn ystyried y mater hwn fel rhan o gam nesaf ein rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ystyried y mater ar wahân o drefniadau rhannu swydd ar gyfer aelodau sy'n cael eu hethol, o gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 5**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i godi ymwybyddiaeth ymhlith sefydliadau'r sector cyhoeddus o fanteision cyflogaion sy'n ymgymryd â dyletswyddau dinesig. Pe byddai gwerthusiad o'r fath yn profi bod y gwaith hwn yn llwyddiannus, dylid ystyried sut y gellid ei gyflwyno i fusnesau sector preifat.

## **Ymateb: Derbyn**

Mae'n bwysig bod sefydliadau yn cydnabod gwerth cefnogi unigolion i gymryd rhan mewn dyletswyddau dinesig, a'u bod hefyd yn arddangos hyn drwy ddileu'r rhwystrau i gymryd rhan. Er enghraifft, drwy alluogi unigolion i wneud gweithgareddau yn y gwaith lle bo'n bosibl. Bydd hyn yn gynyddol bwysig fel rhan o'r ymdrech i wneud y mwyaf o bresenoldeb o bell mewn cyfarfodydd. Rydym yn croesawu gwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn y maes hwn a byddwn yn gweithio gyda nhw i ystyried sut y gallwn ddatblygu'r gwaith hwn i'r dyfodol.

Mae'r manteision posibl i dwf a datblygiad personol unigolion sy'n cael eu hethol yn sylweddol ac yn aml bydd effaith a dylanwad cadarnhaol ar unigolion y tu allan i'w swyddogaeth yn y cyngor.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

## **Argymhelliad 6**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dechrau gweithio ar ymgyrch gadarnhaol i gynyddu amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr sy'n sefyll ar gyfer etholiadau llywodraeth leol erbyn haf 2019.

### **Ymateb: Derbyn**

Fel rhan o ddatblygiad Rhaglen Llywodraeth Cymru, Amrywiaeth mewn Democratiaeth, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i nodi cwrpas a chydrannau ymgyrch i wella amrywiaeth ymysg ymgeiswyr sy'n sefyll ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. Er mwyn i ymgyrch fod yn effeithiol, bydd angen i'r holl bartneriaid gydwethio.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

## **Argymhelliad 7**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn diweddarau ei chanllawiau statudol ar hyfforddiant a datblygiad i nodi bod cymorth i aelodau ar gynnal cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith yn cael ei gynnwys yn y rhaglen sefydlu.

### **Ymateb: Derbyn**

Mae'n hanfodol bod aelodau etholedig yn cael cymorth yn eu rolau, yn enwedig pan fyddant newydd gael eu hethol. Bydd rôl unigolion yn ystod eu cyfnod(au) yn y swydd hefyd yn effeithio ar lefel yr hyfforddiant, ymwybyddiaeth a chymorth y bydd ei angen arnynt. Mae llawer iawn o gymorth eisoes yn cael ei roi i aelodau etholedig gan amryw o sefydliadau. Bydd yn bwysig i'r dyfodol i sicrhau bod y cyfleoedd hyn yn ategu ei gilydd ac yn canolbwyntio ar yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y rôl, a hefyd yn cefnogi unigolion i gydnabod a rheoli hyn gydag agweddau pwysig bywyd y tu allan i'w rôl fel aelod etholedig. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraeth leol a CLILC i ganfod gwelliannau y gellir eu gwneud i'r canllawiau statudol cyfredol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

## **Argymhelliad 8**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn egluro i awdurdodau lleol na ddylai fod yn ofynnol i aelodau gyhoeddi eu cyfeiriadau cartref ar wefan yr awdurdod.

### **Ymateb: Derbyn**

Fel rhan o'n hymgyngoriad *Diwygio Etholiadol ym Maes Llywodraeth Leol yng Nghymru* yn 2017, gofynnodd Llywodraeth Cymru am farn ynglŷn â dileu'r angen i ymgeiswyr llywodraeth leol yng Nghymru gyhoeddi eu cyfeiriad cartref. Rydym yn bwriadu gwneud darpariaeth deddfwriaethol i ddileu'r gofyniad i gyhoeddi cyfeiriadau (mewn etholiadau llywodraeth leol a Chynulliad). Byddwn hefyd yn gwneud darpariaeth deddfwriaethol i awdurdodau lleol gyhoeddi cyfeiriad swyddogol eu haelodau etholedig, yn hytrach na'u cyfeiriad cartref.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

## **Argymhelliad 9**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Comisiwn Etholiadol, yn mynd i'r afael ar fyrder â diffygion mewn canllawiau ar gyfer cynrychiolwyr etholedig, ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr ar yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol ar y cyfryngau cymdeithasol a'r hyn nad yw'n dderbyniol.

### **Ymateb: Derbyn**

Mae eisoes nifer o ganllawiau ar gael yn y maes hwn, ond byddwn yn trafod gyda CLILC a'r Comisiwn Etholiadol i weld beth yn fwy y gallwn ni ei wneud. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r egwyddorion a nodwyd yn ymgynghoriad Llywodraeth y DU *Protecting the Debate: Intimidation, Influence and Information* i ystyried creu trosedd etholiadol newydd yn ymwneud â chodi ofn, gan roi eglurder ynghylch y mater o ddylanwad gormodol, a'i gwneud yn ofynnol i neilltuo ôl troed digidol i ddeunyddiau ymgyrchoedd.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

## **Argymhelliad 10**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn adolygu cadernid systemau cymorth i aelodau sy'n profi camdriniaeth, aflonyddu neu fwlio ar-lein ac yn rhoi newidiadau ar waith i gryfhau'r gefnogaeth hon.

### **Ymateb: Derbyn**

Roedd y dystiolaeth i'r Pwyllgor yn cydnabod y canllawiau a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â'r mater pwysig hwn sydd o bryder sylweddol i ddarpar aelodau ac aelodau cyfredol. Yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, mae Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, y Comisiwn Etholiadol, y Coleg Plismona a Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi datblygu canllawiau ar y cyd ynglŷn ag ymddygiad y gall ymgeiswyr mewn etholiadau ei brofi yn ystod ymgyrch, ac sy'n debygol o fod yn drosedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn hapus i weithio gydag awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ystyried pa fesurau ychwanegol sydd eu hangen i gefnogi aelodau unigol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

## **Argymhelliad 11**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Condemnio'r diffyg camau gan gwmnïau cyfryngau cymdeithasol wrth ddelio â cham-drin ar-lein ac argymhell bod Llywodraeth Cymru yn pwysu ar Lywodraeth y DU i sicrhau deddfwriaeth gref a chadarn i fynd i'r afael â chamdriniaeth ar y cyfryngau cymdeithasol.

### **Ymateb - Derbyn**

Mae'n rhaid i drafodaethau da, cadarn a pharchus fod yn rhan o'n democratiaeth ac mae sicrhau trafodaeth iach sy'n annog cyfnewid barn yn agored yn rhan hanfodol o ddatblygu atebion i broblemau. Ond, ni ddylid camgyrmyd hyn am gyfle i unigolion gam-drin y rhai hynny sydd â barn wahanol i'w barn nhw. Nid yw hyn yn dderbyniol a bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd unrhyw gamau posibl yn erbyn yr ymddygiad hwn a chefnogi'r rhai sy'n dewis ymgymryd â rôl yn y cyngor lleol, a'r holl unigolion sy'n dewis cymryd rhan mewn bywyd

cyhoeddus. Byddwn yn ysgrifennu at Lywodraeth y DU ynglŷn â'r mater hwn ac yn ei godi yn ein trafodaethau rheolaidd gyda Gweinidogion y DU ynglŷn â materion etholiadol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 12**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau cysondeb wrth weithredu codau ymddygiad awdurdodau lleol drwy gyhoeddi canllawiau ar sut i'w gorfodi.

### **Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Gorchymyn Etholiadau Lleol (Datganiad Derbyn Swydd) (Cymru) a wnaed dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gosod fframwaith i hyrwyddo safonau cyson ymddygiad priodol mewn llywodraeth leol. Dan y Ddeddf, mae'n rhaid i berson roi ymrwymiad ysgrifenedig y bydd yn cadw at god ymddygiad ei awdurdod cyn y gall weithredu fel aelod. Mae'r ymrwymiad hwn yn rhan o'r datganiad derbyn swydd statudol.

Swyddogaethau pwyllgor safonau'r awdurdod lleol yw hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau a chynorthwyo aelodau i gadw at god ymddygiad eu hawdurdod. Yn fwy penodol, mae angen i bwyllgor safonau fonitro'r broses o weithredu cod yr awdurdod a rhoi cyngor a hyfforddiant i aelodau ar y cod hwn. Mae hyfforddiant ar y cod ymddygiad yn ffurfio rhan o hyfforddiant cynefino ar gyfer aelodau etholedig newydd a rhaglenni hyfforddiant parhaus ar gyfer aelodau sy'n dychwelyd. Mae swyddogion monitro yn rhoi cymorth o ddydd i ddydd i bwyllgorau safonau ac yn rhoi cyngor i aelodau ar y cod ymddygiad.

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi rhoi canllawiau statudol i gynorthwyo aelodau (a swyddogion monitro) i ddeall eu rhwymedigaethau dan y cod. Mae'r ombwdsmon hefyd yn cyhoeddi enghreifftiau o union achosion honiadau o fynd yn groes i'r cod, a ystyriwyd gan ei swyddfa, yn y 'Llyfr Achosion Cod Ymddygiad'.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi bwriad sylfaenol Argymhelliad 12 wrth geisio hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad. Gan adeiladu ar y fframwaith safonau presennol, bydd y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i arweinyddwyr grwpiau gwleidyddol hyrwyddo safonau ymddygiad uchel gyda'u grwpiau, gan weithio gyda phwyllgor safonau'r awdurdod, a chael cymorth ganddo. Bydd y Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau safonau gyhoeddi adroddiad blynyddol ar safonau ymddygiad yn eu hawdurdod ac mae'n rhaid i hwn gynnwys sut y mae arweinyddwyr grwpiau wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau dan y darpariaethau deddfwriaethol a nodwyd uchod. Bydd angen i gynghorau ystyried yr adroddiad ac unrhyw argymhellion, gan wneud yn siŵr bod aelodau yn ystyried safonau ymddygiad mewn awdurdod yn rheolaidd.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflwyno darpariaethau'r Bil o gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 13**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i fabwysiadu dull cyson o adrodd ar y lwfans gofal sy'n cael ei hawlio gan gynghorwyr, drwy adrodd ar hyn fesul lwfans yn hytrach na nodi pob lwfans a hawliwyd gan aelodau unigol.

### **Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn bryderus bod unigolion sy'n dewis cynrychioli cymunedau unigol yn dewis peidio hawlio ad-daliad treuliau sy'n eu cynorthwyo i wneud eu swydd. Diben

cyflwyno lwfans costau gofal oedd galluogi unigolion i wneud trefniadau i aelodau'r teulu gael gofal tra'u bod nhw yn gwneud gweithgareddau i gefnogi eu cymunedau. Er nad yw yn erbyn y drefn a gynigiwyd, bydd yn bwysig trafod yr agwedd hon gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth i gael eu barn. Mae hefyd yn bwysig, lle bo'n bosibl, bod awdurdodau lleol yn herio'r farn nad oes gan aelodau'r hawl i'r math hwn o gefnogaeth. Mae gan bawb ddyletswydd i hyrwyddo gwerth aelodau etholedig a'r cyfraniad y maent yn ei wneud ar ran cymdeithas ac mae'n rhaid cydnabod na fyddai llawer yn gallu ystyried sefyll i gael eu hethol heb y math hwn o gefnogaeth.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 14**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gasglu gwybodaeth am nifer y cynghorwyr presennol sy'n gymwys i hawlio'r lwfans gofal a faint sy'n gwneud hynny.

### **Ymateb: Gwrthod**

Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod unigolion yn deall pa gefnogaeth y mae ganddynt hawl i'w gael. Ond, er mwyn penderfynu a yw unigolion yn gymwys i hawlio, bydd angen i awdurdodau lleol ei gwneud yn ofynnol i bob aelod etholedig nodi sut y maent yn bodloni'r meini prawf, hyd yn oed mewn achosion lle nad yw'n fwriad gan yr aelod i hawlio. Mae angen cael cydbwysedd rhwng annog unigolion i wneud cais a pharchu dewis unigolion ar gyfer eu trefniadau personol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ystyried y mater hwn ymhellach.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cais i Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ystyried y mater hwn, o gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 15**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad o'r holl raglenni mentora sy'n cael arian cyhoeddus i asesu eu heffeithiolrwydd, gan gynnwys gwerth am arian.

### **Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Cafwyd sawl gwerthusiad o gynlluniau mentora eisoes, gan gynnwys cynllun Amrywiaeth mewn Democratiaeth Llywodraeth Cymru. Does dim amheuaeth bod gwersi i'w dysgu o'r gwerthusiadau hyn a byddant yn cael eu hystyried wrth i ni symud ymlaen gyda cham nesaf y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ystyried y gwersi a ddysgwyd drwy'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, o gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 16**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru, yn dilyn gwerthusiad o raglenni sy'n cael arian cyhoeddus, yn edrych ar y posibilrwydd o sefydlu rhaglen arweinyddiaeth genedlaethol, gan adeiladu ar brofiad Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Chwarae Teg ac eraill i annog mwy o bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i sefyll mewn etholiad.



## **Ymateb: Derbyn**

Bydd y posibilrwydd o sefydlu rhaglen arweinyddiaeth genedlaethol yn cael ei ystyried fel un o'r dewisiadau i gyflwyno cam nesaf y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

## **Argymhelliad 17**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Yn y bil llywodraeth leol arfaethedig, bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys darpariaethau i gyflwyno lefel ddigonol o addysg wleidyddol ar draws ysgolion Cymru. Dylai pobl ifanc 14 a 15 oed dderbyn yr addysg hon, yn enwedig pe bai cynigion i ymestyn hawliau pleidleisio i bobl ifanc 16 a 17 oed yn cael eu gweithredu. Dylid cynnwys cynlluniau gwerau clir ar gyfer y rhaglen hon o ymwybyddiaeth wleidyddol i rymuso athrawon i gyflwyno'r gwersi.

## **Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Er ein bod yn bwriadu deddfu yn benodol i gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg wleidyddol yn y Bil Llywodraeth Cymru ac Etholiadau (Cymru); rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid i gyflwyno deunydd addysgol i'r rhai hynny sydd newydd eu hetholfreinio, ynghyd â strategaethau cyfathrebu i wella ymwybyddiaeth yn barod ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2021 ac etholiadau llywodraeth leol 2022. Bydd hyn yn cynnwys datblygu adnoddau i ysgolion eu defnyddio gyda'u dysgwyr. Mae nifer o gyfleoedd yn y cwricwlwm cenedlaethol i gefnogi hyn, gan gynnwys y thema 'Dinasyddiaeth Weithgar' yn y fframwaith ABCh presennol, un o heriau'r fframwaith Bagloriaeth Cymru. Yn y cwricwlwm newydd hwn, bydd cyfleoedd i gynnwys y maes hwn yn y maes addysgu Dyniaethau.

Yn y ddau achos, y prif ffocws i ysgolion yw paratoi unigolion 16 ac 17 oed i bleidleisio. Bydd y deunydd hwn yn cynnwys gwybodaeth am strwythurau democrataidd ac etholfreintiau yng Nghymru, pwysigrwydd cymryd rhan mewn democratiaeth a gwybodaeth ynglŷn â sut i gofrestru i bleidleisio.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r gwaith a nodwyd yn y paragraffau uchod, o gyllidebau rhaglenni presennol.

## **Argymhelliad 18**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Cymeradwyo'r argymhelliad a wnaed gan ERS Cymru y dylid cynnal ffug etholiad cenedlaethol ar gyfer pobl ifanc ar yr un pryd ag etholiadau'r Cynulliad. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellir gweithredu hyn.

## **Ymateb: Gwrthod**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r syniad o unigolion yn cymryd rhan mewn ffug etholiadau i gefnogi dysg o amgylch y broses ddemocrataidd. Mae eisoes ystod o weithgareddau yn cael eu cynnal ledled Cymru i helpu pobl ifanc i ddeall pwysigrwydd etholiadau iddynt hwy fel unigolion ac i'r cymunedau y maent yn byw ynddynt. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys etholiadau ar gyfer Senedd leuencid Cynulliad Cymru lle bydd yr etholiad yn arwain at sylwadau a thrafodaeth ynglŷn â'r materion sy'n effeithio ar bobl ifanc yng Nghymru gan ddangos i bobl ifanc sut y mae eu pleidlais wedi gwneud gwahaniaeth yn y tymor hir. Wrth i ni symud ymlaen i ymestyn yr etholfraint mewn etholiadau datganoledig yng Nghymru, bydd y gweithgareddau presennol hyn yn cael eu cydlynu, eu harneisio a'u hategu drwy grŵp rhanddeiliaid dan arweiniad Llywodraeth Cymru. Byddant yn cael eu cyfuno gyda'r gwaith addysgu a gwella ymwybyddiaeth y byddwn yn cefnogi ysgolion i'w wneud.

Rydym yn credu bod y gwaith parhaus ac amrywiol hwn, sy'n ceisio cynnwys ein holl bobl ifanc, yn cael gwell effaith nag un digwyddiad unigol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Ni fydd unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r ffug dreialon oherwydd bod yr argymhelliad hwn wedi'i wrthod. Ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â deunyddiau addysgol, gweler y paragraff yn ymwneud â chyllid yn argymhelliad 17.

### **Argymhelliad 19**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Fel mater o egwyddor, bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu cronfa Mynediad i Swydd Etholedig yng Nghymru, i gynorthwyo unigolion anabl i ymgeisio am swyddi etholedig. Dylid hefyd ystyried y posibilrwydd o ymestyn cronfa o'r fath i gefnogi grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

### **Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gyflwyno cynllun yng Nghymru a fydd yn cael ei gyflwyno fel rhan o gam 2 y Prosiect Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chwmpasu a chyflwyno'r cynllun hwn o gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 20**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU o blaid ymestyn y Cymal Machlud yn Neddff Gwahaniaethu ar sail Rhyw (Ymgeiswyr Etholiadol) 2002 hyd 2050 i ganiatáu parhad y rhestrau byr menywod yn unig.

### **Ymateb: Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at Lywodraeth y DU ynghlŷn â'r mater hwn.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 21**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ynghylch gweithredu Adran 106 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

### **Ymateb: Derbyn**

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 22**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn asesu effeithiolrwydd y darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 o ran casglu data, ac mewn perthynas â data eraill am ymgeiswyr y gellid eu casglu o fewn y fframwaith datganoli presennol.

### **Ymateb: Derbyn**

### **Argymhellion 21 a 22**

Yn ogystal â chyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU, byddwn yn ystyried a oes cyfleoedd i gasglu data cydraddoldeb o ran ymgeiswyr etholiadau gan ddefnyddio deddfwriaeth Gymreig bresennol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.